**Llythyr Hawdd ei Ddeall**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llythyr am newidiadau i reoliadau adeiladu

## Rhagfyr 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.



Rydyn ni'n gwneud newidiadau i'r **Rheoliadau Adeiladu** o'r enw **Dogfen Gymeradwy M (mynediad i a defnydd o adeiladau) argraffiad 2004 yn cynnwys newidiadau 2010**.




Fe fydd y newidiadau i Ddogfen Gymeradwy M yn dechrau ar **3 Ionawr 2023**.



Mae'r llythyr yma yn dweud wrthych chi am y newidiadau. A sut y byddwn ni yn rheoli'r newid.



Mae'r canllaw yn y cylchythyr yma yn berthnasol i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru.




Mae **Dogfennau Cymeradwy** yn rhoi canllaw i adeiladwyr a dylunwyr am sut i ddilyn **Rheoliadau Adeiladu**. Dyma'r rheolau sydd yn gwneud yn siŵr bod pobl yn iach ac yn ddiogel mewn adeiladau ac o'u cwmpas.



Fe fydd rhaid i chi ddilyn y rheolau yma pan yn adeiladu a dylunio adeiladau newydd. Neu pan rydych chi yn gwneud newidiadau i adeiladau sydd yno yn barod.

**Ni fydd yn rhaid i chi ddilyn y rheolau newydd:**




- Os ydych eisoes wedi rhoi hysbysiad adeilad neu hysbysiad cychwynnol i'ch awdurdod lleol.

- **Neu** rydych eisoes wedi rhoi cynlluniau llawn i'ch awdurdod lleol **ac**:
  - mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau cyn 3 Ionawr 2023
  - neu fe fydd yn dechrau cyn 3 Mawrth 2023.



# Rhagor o wybodaeth




Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan: https://llyw.cymru/rheoliadau-adeiladu.

**Neu cysylltwch gyda Llywodraeth Cymru ar:**

**Cyfeiriad:** Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Rhydycar
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

**E-bost:** enquiries.brconstruction@gov.wales

**Ffôn:** 03000 628232

Mae'r llythyr yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Neil Hemington, Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio.**

Mae wedi cael ei wneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.